



Adroddiad Arolygu ar gyfer

North Wales supported Living

**8 Y Stryd Fawr
Llangefni
LL77 7LT**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25 Awst 2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gwir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun

North Wales supported Living

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Leonard Cheshire Disability
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn fodlon ar y gofal a ddarperir gan North Wales Supported Living. Cânt eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o gynllunio eu gofal ac maent yn gwybod bod ganddynt ddewis am bwy sy'n eu cefnogi a sut y cânt eu cefnogi. Caiff y staff eu penodi i weithio mewn un man yn bennaf, fel bod y bobl yn cael budd o barhad gofal. Maent yn adnabod y staff sy'n eu cefnogi, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn datblygu cydberthnasau da a llawn ymddiriedaeth â nhw.

Mae'r gweithwyr proffesiynol yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir i'r bobl, ac mae gan rai ohonynt anghenion cymhleth iawn. Maent yn disgrifio'r tîm o staff fel rhai sy'n ymroddedig, yn ymrwymedig ac yn benderfynol o helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Gwnaethant roi enghreifftiau o sut mae'r bobl wedi gwneud cynnydd ardderchog oherwydd y cymorth hynod o effeithiol. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg i gefnogi'r rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf a chaiff y bobl eu cefnogi i gofleidio diwylliant Cymru. Mae darparwr y gwasanaeth yn chwilio am ffyrdd o wneud gwelliannau ac yn gofyn am safbwyntiau'r bobl, eu teuluoedd, y gweithwyr proffesiynol a'r staff.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu cymorth. Gofynnir am eu safbwyntiau ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, yr hyn y maent am ei gyflawni a sut y maent am i'w gofal gael ei ddarparu. Dywedodd y bobl eu bod yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud ac yn gwybod eu bod yn ddiogel. Lle y mae'r bobl yn rhannu eu cartref ac um cael cymorth i fyw yno, gwelsom gytundebau tenantiaeth hawdd eu deall, fel eu bod yn gwybod bod ganddynt hawliau a chyfrifoldebau. Caiff y bobl eu cefnogi i ddelio â'u cyllid cymaint â phosibl. Maent yn mynd i siopa ar eu pen eu hunain ac yn cyfrannu at waith tŷ. Mae'r bobl yn cyfathrebu yn Gymraeg os dymunant gan fod ganddynt aelodau staff sy'n siarad Cymraeg. caiff arferion ysmegu ac yfed eu cefnogi o fewn fframwaith risg. Gwrandewir ar y bobl. Dywedodd un unigolyn nad oedd yn cyd-dynnu ag un aelod o'r staff a dywedodd wrth y rheolwr. Nid yw'r aelod hwnnw o'r staff yn gweithio gyda'r unigolyn bellach.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir pan fydd ei angen arnynt. Mae'r staff gofal yn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael canllawiau meddygol ac iechyd pan fydd angen. Apwyntiadau â meddyg teulu, optegwyr a deintyddion yw rhai o'r trefniadau sydd ar waith i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n dda ac yn hapus a chânt gymorth i wneud yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol o awdurdodau gwaith cymdeithasol ac iechyd eu bod yn fodlon ar y gwaith effeithiol a wnaed gan staff o'r gwasanaeth. Maent yn canmol ymrwymiad a chadernid y tîm o staff o ran goresgyn heriau a dod o hyd i ddatrysiadau. Dywedodd un *'they will never give up in a crisis'* a *'they are never complacent, always looking at what else can be achieved'*.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth gan fod y staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau i'w harwain. Maent yn gwybod pryd i godi pryderon gyda'r tîm rheoli am lesiant y bobl. Mae'r staff yn cael cyfleoedd i godi unrhyw bryderon yn y cyfarfodydd un i un â'r uwch-aelodau o'r staff sy'n cael eu trefnu'n rheolaidd. Cynhelir asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau gofal a chymdeithasol i sicrhau y caiff y bobl eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u cydberthnasau personol. Dywedodd y bobl wrthym am eu hymweliadau ag aelodau o'u teulu. Cafodd un unigolyn barti pen-blwydd yn ddiweddar lle roedd ei berthynas yn bresennol, ac mae unigolyn arall yn ymweld â'i fam yn rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad â pherthnasau eraill. Mae'r bobl yn cymdeithasu pan fyddant yn mynd i siopa ac yn mynd i glybiau cymdeithasol a chanolfannau dydd os dymunant. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw i gyd yn hapus â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser.

Gofal a Chymorth

Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau i greu darlun cywir o'r unigolyn, ei anghenion a'i ddymuniadau. Gwelsom nyrsys ardal, swyddog cymorth cymunedol a gweithwyr cymdeithasol yn cyfrannu at gynlluniau, ochr yn ochr â'r unigolyn ei hun a'i deulu. Dywedodd y bobl wrthym sut y cânt eu cyflwyno i'r bobl y maent yn ystyried rhannu eu cartref â nhw. Caiff eu safbwyntiau eu hystyried cyn gwneud dewisiadau pwysig ynghylch pwy fydd yn byw gyda nhw. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym fod y staff yn frwdfrydig ac yn ymroddedig; maent yn gweithio'n dda fel tîm ac yn gwneud yn siŵr eu bod wedi cael yr holl wybodaeth a hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn dweud eu bod yn gwybod beth mae eu cynllun personol yn ei ddweud amdany'n nhw, a'u hanes, a'u hiechyd. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o lunio eu cynlluniau.

Caiff cynlluniau personol eu diweddarau gan eu bod yn cael eu hadolygu bob mis ac yn fwy ffurfiol bob chwe mis. Gwelsom lle y cafodd newidiadau eu nodi, gan fod adran berthnasol y cynlluniau wedi cael ei newid. Mae'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnodau trosglwyddo ac mae'n ofynnol iddynt ddarllen y cynlluniau sydd wedi'u diweddarau. Mae pecynnau ysbyty ar waith fel y gellir cael gafael ar wybodaeth bwysig yn gyflym mewn argyfwng. Mae'r staff yn gweithio gyda phobl benodol fel eu bod yn dod i'w hadnabod nhw a'u dewisiadau yn dda iawn. Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn gallu cofio enwau'r staff i gyd ac yn teimlo'n ddiogel yn eu cwmni. Dywedodd un unigolyn fod y staff yn *'polite and always willing to help'* ac *'I can do my own thing'*. Dywedodd unigolyn arall eu bod *'kind to me and they look after my wheelchair'*. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael gofal da ac yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud. Dywedodd un unigolyn y mae'r Gymraeg yn famiaith iddo fod ganddo staff sy'n siarad Cymraeg i'w gefnogi. Mae diwylliant Cymru yn bwysig iddo a chaiff ei gefnogi i fynd i gyngherddau canu Cymraeg, i sioeau amaeth, i arddio ar ei randir a phethau eraill sydd o bwys iddo.

Mae'r staff yn monitro iechyd a llesiant y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn trefnu apwyntiadau meddyg teulu, atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol pan fydd angen newid neu gysylltu â'r teulu pan fydd angen. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn canmol ymrwymiad y staff i hybu a gwella annibyniaeth y bobl. Dywedwyd wrthym am enghreifftiau o'r cymorth effeithiol a'r gwahaniaeth a wnaed i ansawdd bywyd y bobl. Dywedodd y staff wrthym hefyd am y gwaith y maent wedi'i wneud a bod gweld y bobl yn cyflawni eu canlyniadau yn rhoi boddhad iddynt.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Caiff ymweliadau chwarterol eu cynnal gan yr Unigolyn Cyfrifol, gan gynnwys ymweliadau â chartrefi'r bobl er mwyn ceisio eu barn. Caiff prosesau eu harchwilio a chaiff arferion eu cynnal. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym pa mor dda y mae'r tîm rheoli yn cyfathrebu â nhw, gan nodi unrhyw bryderon yn gyflym a gweithio gyda'i gilydd er mwyn dod o hyd i'r datrysiadau gorau. Dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym os nad ydynt yn hoff o rywbeth, maent yn rhoi gwybod amdano a chaiff ei newid.

Cwblheir adolygiadau ansawdd gofal bob chwe mis; caiff gwybodaeth ei dadansoddi, a gofynnir am farn y bobl. Caiff archwiliadau eu cwblhau i sicrhau bod cofnodion yn gyfredol ac y caiff polisiau a gweithdrefnau eu dilyn. Gwelsom fod yr adroddiadau ar adolygiadau ansawdd gofal yn wrthrychol ac yn onest; maent yn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r gwelliannau sydd eu hangen ac maent yn monitro'r cynnydd a wnaed ynghyd â chynlluniau gweithredu. Mae cyfres o adroddiadau yn dangos y caiff cynlluniau gweithredu eu cyflawni felly mae'r cynnydd yn barhaus. Er bod archwiliadau ansawdd blaenorol yn dangos bod angen gwella trefniadau goruchwylio, arfarnu ac hyfforddi, mae'r adroddiadau dilynol yn dangos cynnydd da. Caiff arolygon eu hanfon at y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd i gasglu adborth am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wneud i wella'r gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n meddu ar lefel ffitrwydd addas ac mae ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod gweithdrefnau recriwtio yn cael eu dilyn a chaiff y staff eu fetio'n briodol. Mae'r bobl neu aelodau o'u teulu yn cael dewis y staff a fydd yn rhoi cymorth iddynt. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o recriwtio staff, naill ai drwy fod ar y panel recriwtio neu gofynnir am eu barn ar ôl cael eu cyflwyno i'r staff. Os nad yw'r bobl yn cyd-dynnu'n dda â'u staff, maent yn teimlo'n gyfforddus yn codi hyn ac yn gwybod pa gamau gweithredu i'w cymryd. Mae'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru; mae hyn yn sicrhau bod unrhyw un sy'n rhoi cymorth i'r bobl yn gymwys ac yn gymwysedig i wneud hynny. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff wedi'u hyfforddi mewn amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rôl. Dywedodd y staff eu bod yn gwerthfawrogi ac yn dysgu mwy drwy hyfforddiant wyneb yn wyneb ac mae'r rheolwr wedi gwrandao ar hyn ac yn trefnu mwy ohono.

Mae llawer o'r staff wedi gweithio i'r asiantaeth ers sawl blwyddyn. Mae'r staff yn dweud bod y tîm rheoli yn *"approachable and supportive"*, gan nodi *"management always enquire about staff wellbeing and check if they need more support"*. Gwnaethant ddweud eu bod

“never feel there is a wrong time to phone the manager” ac maent bob amser yn barod i helpu.

.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 12/10/2023